SUL CYFFREDIN 17

JEREMEIA 2:4-13; SALM 81:1, 10-16;
HEBREAID 13:1-8, 15-16; LUC 14:1, 7-14

● **Gweddi agoriadol**

Greawdwr pawb,
down â'n hoffrwm moliant
am bopeth a wnaethost i ni.

Waredwr pawb,
down â'n hoffrwm moliant
am bopeth a wnaethost drosom.

Ysbryd pawb,
down â'n hoffrwm moliant
am bopeth a ddatgeli i ni.

Dri yn un,
down â'n hoffrwm moliant;
bydd y fendith yn ein plith yn awr.

● **Moliant**

Duw ffyddlon wyt ti,
a ninnau yn dy siomi mor aml.
Duw maddeugar wyt ti,
hyd yn oed pan wadwn di.
Duw amyneddgar wyt ti
pan grwydrwn ymhell oddi wrthyt.
Duw croesawgar wyt ti
wrth i ni ddychwelyd adre atat.

Dduw ffyddlon a chariadus,
derbyn y clod a ddygwn,
offrwm ein calonnau
a gwasanaeth ein bywydau,
er mwyn i ni yn ffyddlon
ddangos dy gariad
ble bynnag yr awn,
wrth i ni barhau
ar ein taith gyda thi.

● **Cyffes**

Gelwi arnom
ac anwybyddwn dy sibrwd,
gwrando yn hytrach ar leisiau eraill.
Gelwi arnom
a dewiswn lwybr gwahanol,
a dilyn ein mympwy ein hunain.
Gelwi arnom
i fod yn llais i ti yn y byd,
i fod yn ddwylo i ti yn y byd,
i fod yn draed i ti yn y byd,
i gyhoeddi dy heddwch,
dy gysur,
maddeuant,
iachâd,
cariad,
gras.

Maddau i ni;
agor ein clustiau;
galw ni eto
ac fe ddilynnwn.

● Diolch

Diolch i ti am fraint cael gwasanaethu,
cael rhannu dy gariad
mewn gair a gweithred.
Diolch am lawenydd cael gwybod
fod yr hyn ddywedwn
yn gallu dwyn y fath heddwch.
Diolch am y fendith o gael gweld
calonnau yn cael eu cyffwrdd
gan gyfoeth dy ras.

Dyna gynhaeaf yw hwnnw
pan fydd yr hadau a heuwn
yn dwyn ffrwyth!